



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Brondesbury Lodge

**Brondesbury Lodge
Heol Derw
Aberteifi
SA43 1NH**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/02/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atavnhwrchu ein deunydd yn fanwl gwir a nheidio â'i ddefnyddio mewn cwl-destun

Brondesbury Lodge

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal â Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Brondesbury Lodge Limited
Lleoedd cofrestredig	32
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	23 Mai 2022
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a roddir iddynt; dywedodd unigolyn wrthym "*The culture at the home puts people first*". Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu harwain gan gynlluniau nyrsio cywir a chyfredol ond mae angen mwy o waith i ddatblygu gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ynddynt. Mae'r rhyngweithio rhwng y bobl a'r staff yn gynnes, cadarnhaol a chyfeillgar.

Mae'r amgylchedd yn diwallu anghenion iechyd pobl yn effeithiol a byddai'n elwa o'i uwchraddio, sydd wedi'i ohirio oherwydd argaeledd contractwyr.

Mae'r bobl, aelodau o'u teuluoedd a staff yn gwerthfawrogi arweinyddiaeth y rheolwyr ac yn ymddiried ynddynt. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn dda ac yn cwblhau adroddiadau manwl gyda champau gweithredu clir yn dilyn eu hymweliadau chwarterol â'r gwasanaeth.

Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r rheolwr yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn helpu'r bobl i gadw mor iach â phosibl. Mae'r cynlluniau nyrsio yn fanwl ac wedi'u diweddarau. Byddai modd eu gwella trwy gynnwys gwybodaeth ychwanegol am yr hyn sydd o bwys i'r unigolion. Wrth drafod staff gofal, dywedodd y bobl wrthym: *"The staff here are wonderful, so caring"* a *"Staff are excellent and couldn't ask for better"*. Caiff unigolion eu parchu, ac mae'r rhyngweithio rhyngddynt â'r tîm o staff yn gadarnhaol a chyfeillgar. Mae aelodau'r teulu yn gadarnhaol am y gwasanaeth, dywedodd un, *"There is a lovely atmosphere and I'm always made to feel welcome"*. Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n anelu at 'Gynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg a gwelsom staff yn cael sgysiau â phobl yn Gymraeg.

Mae pobl yn cael eu diogelu oherwydd bod recriwtio a hyfforddiant diogel yn sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir. Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau sefydlu a datblygiad parhaus. Mae'r nyrsys wedi cofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac mae'r gweithwyr gofal wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff yn amddiffyn y bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac maent yn deall eu cyfrifoldebau o ran codi pryderon yn llawn. Mae'r bobl yn gwybod sut i wneud cwyn os bydd angen ac maent yn ymddiried yn y rheolwr i ddatrys problemau.

Mae gwahanol ardaloedd cymunedol i'r bobl eu defnyddio i wneud yr hyn maent yn eu mwynhau. Mae ystafelloedd unigol wedi'u personoli gan y bobl yn ôl eu dewis. Mae gwaith uwchraddio wedi'i ohirio oherwydd diffyg argaeledd contractwyr lleol. Mae'r gerddi yn hygyrch i'r bobl i wneud yr hyn maent yn ei fwynhau i'w helpu i aros yn iach.

Mae'r prosesau llywodraethu yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth drwy ddefnyddio gwybodaeth o arolygon ac archwiliadau mewnol. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal yn gynhwysfawr ond dylai gael ei gwblhau bob chwe mis yn hytrach na bob blwyddyn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref ac yn siarad â phobl, eu cynrychiolwyr a staff am wella ansawdd y gwasanaeth. Caiff y wybodaeth hon ei chofnodi mewn adroddiadau ymweliadau Rheoliad 73 gyda chamau gweithredu clir.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Mae gweithwyr gofal yn treulio amser yn siarad â phobl a gwelsom lawer o ryngweithio cynnes a chyfeillgar. Mae'r unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth yn gwerthfawrogi'r gofal a'r cymorth a ddarperir, dywedodd pobl wrthym "*I have no complaints whatsoever*", "*the staff are wonderful, so caring*" a "*Staff are excellent and very helpful, if you need anything they sort it out*". Mae cynrychiolwyr y bobl yn gadarnhaol am y gwasanaeth, dywedodd un ohonynt "*I'm really happy that he's at the home, they look after him so well*". Dywedodd un o'r gweithwyr gofal, wrth siarad yn frwdfrydig am y bobl, "*I just love them (people) and I love the job*".

Mae'r staff nyrsio yn asesu amrywiaeth o wybodaeth a geir gan yr unigolyn, ei gynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol allanol. Mae gan y rheolwr gynlluniau nyrsio manwl a chywir ar gyfer unigolion ond mae angen mwy o wybodaeth sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn am hoffterau a dewisiadau'r bobl. Mae'r nyrsys yn adolygu cynlluniau'n rheolaidd, felly maent yn parhau i fod yn berthnasol ond mae angen iddynt gynnwys pobl a/neu eu cynrychiolwyr yn y broses hon. Mae nodiadau dyddiol yn cofnodi'r tasgau nyrsio sydd wedi'u cwblhau ond mae angen cynnwys cyfrif o'r dydd o safbwynt yr unigolyn. Mae'r rheolwr yn bwriadu cynnwys y bobl yn fwy gyda'u cynlluniau personol a bydd yn gwella'r ffordd y caiff canlyniadau eu cofnodi mewn nodiadau dyddiol. Byddwn yn gwirio am y wybodaeth hon yn ein harolygiad nesaf.

Mae tystiolaeth dda yn y ddogfennaeth o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ymwneud â'r bobl. Mae ymwelydd iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth gan ddweud wrthym "*Absolutely no concerns at all, the staff are brilliant with the residents and they always make me feel welcome*". Caiff meddyginiaeth ei storio a'i rhoi'n briodol.

Mae lefelau staffio digonol ar waith i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae gan y staff ddigon o amser i'w dreulio gyda'r bobl ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion a dewisiadau pob unigolyn. Mae cydlynnydd penodedig yn trefnu gweithgareddau ar gyfer pobl o fewn y gwasanaeth, y tiroedd a'r gymuned.

Mae gan y darparwr bolisiau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli'r risg o heintiau. Mae arferion hylendid da ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Mae'r staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol (PPE) cywir ac yn dilyn canllawiau mwyaf diweddar lechyd Cyhoeddus Cymru.

Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn ymddangos yn gyfforddus a chartrefol yn y gwasanaeth. Mae'r ystafelloedd unigol wedi'u personoli â'u lluniau, paentiadau, dodrefn ac addurniadau eu hunain. Mae'r bobl yn mwynhau golygfeydd o'r gerddi ac yn edrych ymlaen at gael mynediad allan iddynt pan fydd y tywydd yn gwella. Caiff materion cynnal a chadw eu datrys yn brydlon ac mae'r tîm domestig yn ymroi i gadw'r adeilad yn lân ac yn ffres.

Nodwyd problemau gydag addurn y gwasanaeth, dodrefn wedi'u difrodi a bod angen uwchraddio rhai o'r ystafelloedd ymolchi. Nodwyd hyn yn yr Adolygiad o Ansawdd y Gofal diweddaraf ac adroddiadau dilynol yr Unigolyn Cyfrifol, ond bu oedi gyda'r newidiadau oherwydd argaeledd contractwyr i wneud y gwaith.

Cwblheir archwiliadau lechyd a Diogelwch rheolaidd o'r eiddo. Mae'r darparwr yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn arolygiad diweddar gan yr Awdurdod Tân Lleol. Mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â phrofi'r cyfarpar diogelwch tân. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad wedi'u teilwra i'r unigolyn ac ar gael mewn argyfwng.

Cafodd y gegin sgôr o bump ar gyfer hylendid bwyd. Gall y bobl fwyta gyda'i gilydd neu yn eu hystafelloedd eu hunain. Dywedodd person sydd yn byw yn y gwasanaeth *"The food is fantastic, varied and the chef is lovely"*. Mae'r bobl yn gwneud penderfyniadau yn ôl yr hyn maent yn ei fwyta a dywedodd aelod o deulu wrthym *"The food is great and the kitchen work around her choices/preferences"*.

Roedd mesurau COVID-19 ychwanegol ar waith yn ystod yr ymweliad oherwydd nifer uchel o achosion yn yr ardal leol.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau ymweliadau statudol Rheoliad 73 i'r gwasanaeth bob chwarter. Dywedodd y staff ei fod yn hawdd siarad ag ef ac roedd yn gefnogol. Dywedodd gweithwyr gofal wrthym *"I get on well with him (RI) and I tell him what's what, he always asks me how things are at the home"*. Mae trefniadau ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal yn defnyddio gwybodaeth o archwiliadau ac yn rhestru camau gweithredu ar gyfer gwella'r gwasanaeth. Caiff hwn ei gwblhau bob blwyddyn ar hyn o bryd, ond caiff ei gwblhau bob 6 mis yn y dyfodol a byddwn yn gwirio hyn yn ein harolygiad nesaf.

Mae'r staff yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth yn y gwasanaeth. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym *"Can't fault [Manager]. She is a great support is very accommodating, I can go to her easily and she listens and deals with things there and then"*. Mae'r rheolwr yn gefnogol o'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth ac yn rhannu amser rhwng dyletswyddau gweinyddol a nyrsio. Gall y bobl siarad â'r rheolwr ac maent yn gwybod sut i wneud cwyn. Dywedodd unigolyn wrthym *"[Manager] is fantastic, she's lovely. I had an issue, spoke to her and she sorted it out"*. Siaradodd aelod o deulu yn gadarnhaol am y rheolwr gan ddweud *"[Manager] is easy to approach and very sensitive in the way she deals with issues"*.

Mae gweithdrefnau arwain wedi'u diweddarau yn cefnogi arferion da, ac mae gan y staff ddealltwriaeth ddigonol o bolisiâu allweddol. Mae'r gweithwyr yn cael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd, gan gynnwys arfarniadau blynyddol. Mae'r staff yn dangos dealltwriaeth dda o faterion diogelu ac maent yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau priodol.

Cynhelir gwiriadau cyn cyflogaeth cyn i gyflogaeth newydd ddechrau gweithio, Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geiradau a'r hawl i weithio a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae hyfforddiant a datblygiad parhaus yn cefnogi'r staff i ddiwallu anghenion y bobl. Mae rhaglen sefydlu'r staff yn gysylltiedig â deilliannau dysgu unigol a 'Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol.' Mae'r staff wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru o fewn chwe mis i gael eu cyflogi yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw'r cyfnod sefydlu ar gyfer staff newydd ar godi a chario yn cael ei gofnodi'n ddigonol. Mae'r rheolwr yn bwriadu aildechrau defnyddio'r rhestrau gwirio cymhwysedd manwl blaenorol i gofnodi cydymffurfiaeth.

Mae nifer digonol o staff gofal profiadol yn gweithio ar shifftiau i ddiwallu anghenion y bobl. Mae llawer o'r gweithwyr gofal wedi meithrin cydberthnasau hir-sefydlog â'r bobl ac yn deall eu hamgylchiadau unigol.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
12	Mae angen diweddarau, adolygu, ac ychwanegu gwybodaeth bellach ar 3 pholisi	Cyflawnwyd

Dyddiad Cyhoeddi 14/03/2023